**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.cymru

10 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick

Diolch ichi am eich llythyr 5 Hydref ar ran y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("y Gorchymyn") a osodwyd yn groes i'r confensiwn 21 diwrnod. Bu ichi ofyn am eglurhad pellach o ran paham yr oedd angen torri'r rheol 21 diwrnod y tro hwn.

Cyflwynodd Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("Gorchymyn cyntaf 2020") ddiwygiadau dros dro i weithdrefnau ymgynghoriad cyn ymgeisio, gofynion cyflwyno Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ymgynghori â'r Cyngor Cymuned.  Pennodd Gorchymyn 2020 gyfnod argyfwng yn dechrau 19 Mai ac yn dod i ben 18 Medi. Yn ystod y cyfnod hwn byddai'r diwygiadau dros dro mewn grym.

Yn dilyn gosod y Gorchymyn 2020 cyntaf, dechreuwyd llacio'r cyfyngiadau a gyflwynwyd i reoli argyfwng COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys mwy o ryddid i bobl symud ac ailagor adeiladau cyhoeddus. Rhagwelwyd y byddai adeiladau cyhoeddus, a llyfrgelloedd yn arbennig ar agor yn eang erbyn misoedd yr haf ar ôl llwyddiant wrth eu hagor o dipyn i beth ledled y wlad. Er gwaethaf caniatáu'r amser mwyaf posibl i'r awdurdodau lleol ailagor adeiladau cyhoeddus, erbyn diwedd mis Awst fe ddaeth i'r amlwg fod yr awdurdodau lleol wedi cyrraedd gwahanol gamau o ran parodrwydd ac felly, ni fyddai modd sicrhau ymagwedd gyson at ymgynghoriad cyn ymgeisio pe bai'r cyfnod argyfwng yn dod i ben ar 18 Medi.

Roeddem am weld dull gweithredu cyson i helpu datblygwyr sy'n gweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol, ac i helpu cynigion datblygu i gael eu cyflwyno ar adeg pan fu creu momentwm mewn datblygiad economaidd yn bwysig. Rydym wedi ceisio cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn penderfyniadau cynllunio.  Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer datblygwyr a phreswylwyr yng Nghymru, bu inni geisio adnewyddu'r gorchymyn 2020 cyntaf a sicrhau nad oedd unrhyw doriad yn y cyfnod argyfwng.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod yr amser a oedd yn weddill cyn i'r cyfnod argyfwng a bennwyd yng Ngorchymyn 2020 cyntaf yn gyfyngedig, er mwyn sicrhau dilyniant, roedd hyn yn golygu, yn anffodus, fod angen torri'r confensiwn 21 diwrnod.

O gofio'r sefyllfa bresennol ynghylch Covid-19, bydd angen estyniad pellach i'r cyfnod argyfwng ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor y bydd y gorchymyn hwn at y dyfodol yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod tra'n sicrhau dilyniant y gweithdrefnau dros dro. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynghori ar ateb parhaol, tymor hir i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government